**Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 17 Medi 2020 trwy Webex**

**Yn bresennol**
Sally Ellis
Julia Hughes
Gill Murgatroyd
Gareth Pritchard
Y Cynghorydd Owen Thomas, Cyngor Sir y Fflint

Gareth Owens, Dirprwy Glerc
Alwen Davies, Swyddog Cyswllt yr Aelodau

**Ymddiheuriadau**
Dim ymddiheuriadau.

1 ETHOL CADEIRYDD A DIRPRWY GADEIRYDD

1.1 Roedd tymor swydd A P Young gyda'r Pwyllgor Safonau wedi dod i ben ac felly gofynnwyd i'r Pwyllgor enwebu Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd newydd.

1.2 Aeth Sally Ellis ati i enwebu Julia Hughes ar gyfer rôl y Cadeirydd ac eiliwyd hyn gan bawb a oedd yn bresennol ac ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill.

1.3 Yna cymerodd Julia Hughes y Gadair a gofyn am enwebiadau ar gyfer rôl y Dirprwy Gadeirydd. Aeth Mrs Hughes ati i enwebu Sally Ellis ar gyfer y rôl hon ac eiliwyd hyn gan bawb a oedd yn bresennol ac ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill.

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

2.1 Dim.

3 HYSBYSIAD O FATERION BRYS

3.1 Dim.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

4.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2020 fel cofnod cywir.

5 MATERION YN CODI

5.1 Cytunwyd y dylid anfon llythyr o ddiolch at Antony P Young i ddiolch iddo am ei wyth mlynedd o wasanaeth i'r Pwyllgor.

6 SESIWN HYFFORDDI

6.1 Fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf, cyflwynodd y Dirprwy Glerc sesiwn hyfforddi i'r aelodau ar y pynciau canlynol:

- Gollyngiadau
- Cyfrifoldeb y Pwyllgor ar gŵynion cam 3 y Gwasanaeth
- Cynyddu dealltwriaeth o'r chwe phrotocol y mae'r Pwyllgor wedi'u hadolygu dros y flwyddyn ddiwethaf.

6.2 Cytunwyd bod y nodiadau hyfforddi i'w cylchredeg i'r Aelodau.

6.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

7 PRESENOLDEB YN Y CYFARFOD

7.1 Ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd o'r Awdurdod ers mis Chwefror 2020 oherwydd Covid, felly cytunwyd i ohirio'r mater o bresenoldeb mewn cyfarfodydd tan y cyfarfod nesaf.

8 COFRESTRU RHODDION A LLETYGARWCH GAN AELODAU'R AWDURDOD

8.1 Gofynnwyd i'r Aelodau adolygu uwchlaw pa werth y mae'n rhaid i roddion a lletygarwch gael eu cofrestru gan gynghorwyr.

8.2 Yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2020, gofynnodd y Pwyllgor uwchlaw pa werth y dylid cofrestru rhoddion a lletygarwch ymhlith awdurdodau eraill yng Nghymru. Nodwyd bod y rhan fwyaf o awdurdodau (12) a ymatebodd yn gosod y lefel y mae'n rhaid cofrestru rhoddion uwchlaw iddi ar £25.

8.3 **PENDERFYNWYD argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub ei fod yn cadw'r gwerth y dylid cofrestru rhoddion a/neu letygarwch uwchlaw iddo ar £25. Cytunwyd hefyd i ofyn i'r Awdurdod gynnwys rhwymedigaeth o fewn cod ymddygiad yr aelodau fel a ganlyn:**

"Rhaid i chi, o fewn 28 diwrnod i dderbyn unrhyw rodd, lletygarwch, budd materol neu fantais o un ffynhonnell lle mae cyfanswm gwerth hynny ynghyd ag unrhyw roddion, lletygarwch, budd materol neu fantais arall o'r un ffynhonnell o fewn y 12 mis diwethaf yn fwy na £100, roi hysbysiad ysgrifenedig i'r clerc o'i fodolaeth a'r ffynhonnell."

9 ADRODDIAD I'R YMATEB BRYS I'R BOMIO YM MANCEINION

9.1 Yn dilyn cais gan aelodau yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor, rhoddodd yr adroddiad fwy o wybodaeth i'r aelodau am adroddiad Kerslake ac a oedd unrhyw wersi moesegol i'w dysgu o'r bomio a ddigwyddodd ym Manceinion ym mis Mai 2017.

9.2 Nodwyd bod yr adroddiad wedi adolygu'r ymateb gweithredol i'r bomio er mwyn canfod a oedd y gwasanaethau brys yn barod ar gyfer ymosodiad terfysgol o'r math hwn a sut y gwnaethant ddelio ag ef. Roedd pwyslais yr adroddiad felly ar y trefniadau strategol a gweithredol a oedd ar waith a sut y gellid eu gwella. Nid oedd yn cyffwrdd ar ymddygiad moesegol gan gynghorwyr etholedig.

9.3 Nodwyd ymhellach, oherwydd bod pob penderfyniad yn cael ei wneud ar lefel weithredol, nad oedd unrhyw faterion llywodraethu na moesegol yn codi o berthnasoedd amlasiantaethol ar lefel yr Awdurdod.

9.4 **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

10 BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU

10.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i adolygu blaenraglen waith y Pwyllgor.

10.2 Yn ei gyfarfod ym mis Chwefror gofynnodd y Pwyllgor am gael adolygu ei flaenraglen waith ei hun yn erbyn y gwaith a wneir gan y Pwyllgorau yn yr awdurdodau tân eraill. Cyflwynwyd rhaglen waith ddiwygiedig i'r aelodau ei chymeradwyo.

10.3 Er mwyn i aelodau annibynnol allu arsylwi ar gyfarfodydd yr Awdurdod yn ystyrlon, gofynnwyd am ffurflen adborth strwythuredig y bydd y Dirprwy Glerc yn ei dosbarthu yn 2021.

10.4 Oherwydd Covid, nid oedd yr Awdurdod wedi cyfarfod ers mis Chwefror 2020 a chan y byddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithiol hyd y gellid ei ragweld, cytunwyd y byddai unrhyw arsylwadau'n cael eu cynnal yn 2021 unwaith y byddai aelodau'r ATA yn gyfarwydd â defnyddio'r system Zoom. Awgrymwyd, wrth gynnal arsylwadau, bod aelodau annibynnol yn arsylwi mewn parau er mwyn gallu cymharu nodiadau.

10.5 **PENDERFYNWYD cytuno ar y flaenraglen waith yn amodol ar ychwanegu'r eitemau canlynol at agenda Chwefror/Mawrth 2021:**

- Presenoldeb aelodau'r ATA mewn cyfarfodydd
- Cydbwyllgor Safonau.